



CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

Cynllun y Cyngor Tref 2012 - 2017

Dyddiad Mabwysiadu: 17eg Gorffennaf 2013
Dyddiad Adolygu: Mai 2014

Cyngor Tref y Rhyl
Swyddfeydd Dinesig
Canolfan Gymuned Ffordd Wellington
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 1LE

Ffôn: 01745 331 114

Ebost: enquiries@rhylltowncouncil.gov.uk

Gwefan: <http://www.rhyl-wales.co.uk/cy/living/town-council>

GWELLA ANSAWDD BYWYD Y DREF

CYNNWYS

ADRANNAU

ADRAN A:	PAM CYNHYRCHU CYNLLUN CYNGOR TREF?	2 - 3
ADRAN B:	CYNGOR TREF Y RHYL	4 - 7
ADRAN C:	GWELEDIGAETH A DATGANIAD CENHADAETH	8
ADRAN D:	Y CYNLLUN STRATEGOL 2012 – 2017	9 - 22

AMCANION

ARWEINYDDIAETH LEOL GREF	9
YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED, CYFATHREBU A DATBLYGU	17
TWRISTIAETH AR GYFER SWYDDI	20
BUDDSODDI MEWN CYMUNEDAU	21
DYSGU GYDOL OES	21
CEFNOGI POBL YN EIN CYMUNEDAU	22
LLES ECONOMAIDD Y DREF	22

ATODIAD

1	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2011) – Canlyniadau'r Rhyl	24 – 25
2	Cynrychiolwyr y Cyngor Tref ar Gyrrff Allanol	26 - 27
3	Gweithgareddau'r Cyngor Tref	28

ADRAN A

PAM CYNHYRCHU CYNLLUN TREF?

'Os nad ydych yn gwybod lle 'rydych yn mynd, sut fyddwch yn gwybod eich bod wedi cyrraedd?'

Mae cymunedau ym mhob man yn newid trwy'r amser. Mae'r llywodraeth eisiau i gymunedau lleol gymryd mwy o reolaeth o'u bywydau eu hunain, dweud beth hoffent ei weld yn digwydd yn eu cymdogaethau eu hunain a chysylltu â chyrrff eraill i wneud hynny.

Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud datganiadau clir eu bod yn dymuno dod y agosach at y cymunedau a wasanaethant, gan gytuno a llofnodi yn ddiweddar siarter newydd rhyngddynt hwy fel yr awdurdod lleol a Chyngor Tref y Rhyl.

Ni fedrwch rwystro newid, ond mi fedrwch ddylanwadu arno. Gall ein Cynllun ni helpu ein cymuned i ysgogi newid.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Atodiad 1) dro ar ôl tro wedi adnabod y Rhyl fel cymuned sy'n dioddef amddifadedd. Er bod nifer o gyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol yn ymateb i'r amddifadedd hwn, mae'n aros yn ddangosydd cyson bod 'iechyd' y Rhyl fel cymuned yn llawer is na'r hyn a ystyrid yn dderbyniol ac islaw cyfartaleddau Sir Ddinbych a Chymru fel ei gilydd.

Mae ein cynllun yn nodi sut gall camau cymunedol ddiwallu'r anghenion lleol hyn a bydd yn helpu blaenoriaethu adnoddau, a fydd yn eu tro yn bwydo gwybodaeth bwysig i helpu dylanwadu ar bolisiâu, penderfyniadau a chymau eraill.

Trwy gyfrwng ei ddyraniadau cyllidebol ac yn arbennig trwy ei gynllun grantiau, mae'r Cyngor Tref wedi medru rhoi cymorth ariannol i ystod eang o fentrau cymunedol. Serch hynny, fel sy'n wir yn gyffredinol, nid yw gallu'r cyngor i barhau i wario ar lefel o'r fath yn gynaliadwy bellach heb gynyddu ei braesept i lefel annerbyniol.

Felly, ar gyfer y dyfodol rhagweladwy bydd y cymorth ariannol y gall ei gynnig i'w gymuned yn llawer llai a bydd angen i'r cyngor flaenoriaethu rhoi grantiau yn unol ag amcanion y cyngor.

Fel cymuned, medrwn ddangos ein bod o ddifrif ynglŷn â'n dyfodol. Efallai y bydd Cynllun y Cyngor Tref yn cynyddu ein siawns o gael cymorth awdurdod lleol i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymuned.

Bydd yn rhoi i ni'r dystiolaeth i helpu llunio polisiâu gan amrywiol gyrff, o'r awdurdod cynllunio lleol i'r heddlu a'r gwasanaethau iechedd. Bydd hefyd yn ein helpu i ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r holl gyrff allanol hynny sy'n darparu gwasanaethau i'n cymuned, nawr ac i'r dyfodol.

Mae manteision cynhyrchu'r cynllun hwn yn niferus. Bydd:

- Yn rhoi i holl bobl leol nid yn unig yr hyder, ond y cyfle i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu cymuned, gan adnabod materion cadarnhaol a negyddol
- Yn dylanwadu ar a hysbysu eraill gan gynnwys Strategaethau Cymunedol a Fframweithiau Datblygu Lleol
- Darparu tystiolaeth glir o anghenion a blaenoriaethau'r gymuned er mwyn i'r Cyngor Tref gynllunio ein hadnoddau a'n hymdrechion
- Yn cryfhau perthynas y Cyngor Tref gyda phob rhan o'r gymuned
- Yn helpu'r gymuned i wella ei statws
- Yn datblygu mwy o weithredu gwirfoddol lleol
- Yn creu teimlad gwirioneddol o ysbryd cymunedol, cael pobl i gymryd rhan a siarad â'i gilydd
- Yn ailrymuso democratiaeth leol trwy ysgogi diddordeb mewn materion cymunedol
- Yn cael arian ar gyfer mentrau lleol trwy ddangos ein bod wedi mynd trwy asesiad o anghenion gyda chyfraniad cymunedol llawn
- Yn amlygu prosiectau sydd angen ymgysylltiad gan asiantaethau eraill
- Yn annog gwaith partneriaeth.

Dros nifer o flynyddoedd, mae amrywiol gyrff wedi datblygu cynlluniau a strategaethau ar gyfer delio ag anghenion y Rhyl. Yn aml, mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud â chylch gorchwyl ymrwymadau cyflawni'r gyrff comisiynu a all ymestyn heibio ffiniau trefi neu ymwneud ag ardaloedd penodol yn y dref neu wasanaethau penodol.

Y diweddaraf o'r rhain yw cynllun cyflawni 'Y Rhyl yn Symud Ymlaen' sydd, o ran ei natur, yn canolbwyntio ar fentrau sy'n ceisio delio â materion yn ymwneud ag amddifadedd mewn ardaloedd o'r dref.


Mae Cyngor Sir Ddinbych, awdur y cynllun cyflawni, hefyd yn ddiweddar wedi cyflwyno cynlluniau tref ar gyfer y rhan fwyaf o'r prif drefi yn y Sir: *"bydd y rhain yn ddogfennau byw a fydd yn nodi sefyllfa bresennol y trefi, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol a wynebant dros y degawd nesaf, gweledigaeth ar gyfer pob tref a fydd yn ei darparu gyda dyfodol cynaliadwy a chymau realistig y gellir eu cyflawni, a fydd yn helpu cyflawni'r cynlluniau"*.

Nid oes cynllun o'r fath wedi ei ddatblygu ar gyfer y Rhyl, gan fod y Cyngor wedi penderfynu y bydd cynllun cyflawni 'Y Rhyl yn Symud Ymlaen' yn cyflawni'r amcan uchod i'r Rhyl. Fodd bynnag, ni fu ymgynghori gyda'r Cyngor Tref ar a fydd cynllun 'Y Rhyl yn Symud Ymlaen' yn cyflawni'r agwedd gyfannol hon ar gyfer y Rhyl gyfan.

Felly, dylid dylunio Cynllun Strategol y Rhyl i ddiwallu anghenion y Rhyl gyfan.

ADRAN B

CYNGOR TREF Y RHYL



Cyngor Tref (neu Gyngor Cymuned fel y'i gelwir hefyd) yw'r lefel o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Mae'r Cynghorau hyn yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol penodol ac mae Cyngor Tref y Rhyl yn ceisio gwasanaethu a chynrychioli anghenion cymuned y Rhyl. Rhennir pob cymuned yn ardaloedd daearyddol llai a elwir yn wardiau.

Fel rheol cynhelir etholiadau bob pedair blynedd (gyda'r diweddraf ym mis Mai 2012), pan ofynnir i drigolion y Dref ethol rhwng dau a phedwar (mae rhai wardiau yn fwy nag eraill) o Gynghorwyr ar gyfer eu ward hwy i gynrychioli buddiannau penodol eu wardiau a buddiannau cyffredinol y Dref.

Mae manylion y Cynghorwyr sy'n cynrychioli pob ward i'w gweld ar ein gwefan. Mae naw ward yn y Dref ac etholir cyfanswm o 22 aelod a gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r Cyngor Tref.

Bob blwyddyn bydd y Cyngor Tref yn penodi un o'i Gynghorwyr i swydd Maer y Dref sydd wedyn yn cynrychioli'r Cyngor Tref mewn amrywiol ddiwyddiadau trwy gydol y flwyddyn.

Gwirfoddolwyr yw'r Cynghorwyr Tref, sy'n sefyll mewn etholiad oherwydd eu bod yn hidio am eu cymuned ac eisiau gweld gwahaniaeth – nid oes tâl am y rôl hon.

Mae Cynghorwyr Tref y Rhyl yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y mis i drafod amrywiol bynciau sy'n berthnasol i redeg a datblygu'r Dref. Mae'r Cyngor yn ymfalchïo ynddo'i hunan am gynnal ei fusnes mewn dull agored ac amlwg.

Mae rhaglenni a chofnodion y Cyngor ar gael yn y llyfrgell gyhoeddus ac ym mhob cyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhelir ar drydedd Mercher pob mis (ac eithrio Awst); caiff trigolion y Rhyl y cyfle i holi aelodau'r Cyngor.

Cyngor Tref y Rhyl yw un o 37 Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych – a'r mwyaf o ran poblogaeth a gweithgaredd ariannol. Mae ffiniau'r Dref yn ymestyn o Harbwr Foryd yn y Gorllewin i ben Dwyreiniol Cwrs Golff y Rhyl. I'r de mae ffiniau'r Dref yn ddiweddar wedi eu hymestyn i gynnwys Parc Manwerthu Clwyd a Stad Maes Y Gog ar Ffordd Dyserth.

Cyfyngir y Cyngor Tref o ran yr hyn a wna, a than y gyfraith nid oes ganddo bwerau helaeth Cyngor Sir Ddinbych, sef yr awdurdod unedol sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau beunyddiol hanfodol yn y Dref.

Prif rôl y Cyngor Tref yw cynrychioli barn ei drigolion, busnesau a chyrrff eraill yn y Dref ac fe wna hyn trwy drafod materion yn rheolaidd yn ei gyfarfodydd. Mae'n ystyried materion a gyfeirir i'w sylw gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, asiantaethau cyhoeddus, cyrrff lleol ac aelodau'r cyhoedd.

Weithiau mae materion ar y rhain y mae'n rhaid iddo fynegi barn dan y gyfraith e.e. materion cynllunio. Ar adegau eraill, yngynghorir â'r cyngor fel parti â diddordeb, er enghraifft ar strategaeth dwristiaeth i'r dyfodol ar gyfer y Rhyl neu gynnig i wella'r promenâd.

Weithiau rhaid iddo chwilio am wybodaeth ar yr hon y teimla y dylai fod wedi ei gysylltu neu lle gall ddylanwadu ar benderfyniad ar ran y Dref e.e. adnoddau plismona i ddelio â throseddau ac anhrefn; Marchnad y Rhyl; Datblygiad Ocean Plaza; rhaglen 'Y Rhyl yn Symud Ymlaen', materion amgylcheddol megis Pwll Brickfields, Llifogydd Lleol, ailfodelu Cyt y Rhyl.

At hyn, mae'r Cyngor yn rheolaidd yn gwahodd nifer ac amrywiaeth o siaradwyr i annerch y Cyngor ar faterion o ddiddordeb cyffredinol neu arwyddocâd lleol, er mwyn bod yn ymwybodol o welliannau a datblygiadau cyffrous yn y dref. Byddwn yn herio lle bo angen i gael y canlyniad gorau i'n tref.

I hwyluso'r broses hon, mae'r Cyngor yn cyflogi grŵp bychan o staff ymroddedig i reoli materion cyfreithiol, ariannol a gweinyddol y Cyngor ac maent hefyd yn gwneud y gwaith ymchwil sydd ei angen fel bod y Cyngor yn gwybod cymaint ag y bo modd ynglŷn â'r materion sy'n effeithio'r Dref.

Cod Ymddygiad Cyngor Tref y Rhyl ar gyfer Cyngorwyr Tref

Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau, mae'r Cyngorwyr wedi addo glynu at God Ymddygiad Cyngor Tref y Rhyl. Gofynna'r Cod i'r Aelodau weithredu yn unol â chwe egwyddor gyffredinol:

1. Hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch tuag at Eraill.
2. Atebolrwydd a bod yn Agored.
3. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith.
4. Anhunanoldeb a Stiwardiaeth.
5. Gwrthycholdeb a Phriodoldeb.
6. Gonestrwydd.

At hyn, yn eu holl drafodion, mae'r Cod yn gofyn i Gyngorwyr ystyried os oes ganddynt unrhyw fuddiannau personol mewn unrhyw faterion sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor, ac a yw'r Cod

Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol bod Cyngorwyr yn datgelu'r buddiannau hynny.

Gall methu â chadw at y Cod arwain at atal neu ddiswyddo Cyngorydd o'i swydd. Gellir darllen copïau o'r Cod Ymddygiad yn Swyddfeydd y Cyngor Tref yn ystod oriau gwaith arferol.

Cyfrifon wedi eu Cyhoeddi a'u Harchwilio

Mae'r holl Gyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru yn destun Archwiliad allanol blynyddol. Yn ystod y broses hon gall y cyhoedd archwilio'r cyfrifon. At hyn, mae'r Cyngor yn cyflogi archwiliwr mewnol annibynnol sydd hefyd yn sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.

Cyflawni dros y Rhyl

Mae'r Cyngor Tref yn ymgyrchu'n gadarnhaol i gynnal neu wella safonau, a datblygu cydlyniant cymunedol. Mae'r Cyngor Tref yn chwarae rhan yn y canlynol -

Ariannol

- Arweinyddiaeth Ddinesig
- Goleuadau
- Glanhau a thrwsio arosfannau bysus
- Darparu seddau a biniau (*heb gynnwys y stryd fawr*)
- Yr Ardd Goffa
- Digwyddiadau, er enghraifft y Nadolig, Arena, Sioe Awyr y Rhyl, Gala'r Maer ...
- Canolfan Gymuned Tynewydd
- Rhaglen gweithgareddau corfforol
- Hybu'r dref, gan gynnwys Rheolwr Canol y Dref
- Mae'n rhanddeiliad yn y fenter Rheolwr Canol y Dref
- Grantiau i gyrff gwirfoddol.

An-ariannol

- Arweinyddiaeth Gymunedol
- Cynrychiolaeth ar gyrff allanol, er enghraifft, fforwm Defnyddwyr Marine Lake, Fforwm yr Harbwr, Strategaeth Dinas y Rhyl, Coleg Cymunedol y Rhyl.
- Llywodraethwyr Ysgolion.
- Mynegi barn ar Gynllunio.
- Ymateb i ymgynghoriadau ar ran y dref.
-

Yn ychwanegol at yr uchod, mae Cyngorwyr Tref yn chwarae rhan ym mhob agwedd o fywyd cymunedol ac yn cynorthwyo nifer o gyrff trwy waith gwirfoddol.

Cefnogi Cyrff Lleol

Gofynnir yn aml i'r Cyngor Tref gefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu yn y Dref.

Yn aml, bydd hyn ar ffurf dim mwy na llythyr o gefnogaeth ar gyfer prosiect penodol i helpu'r corff hwnnw i gael cyllid grant.

Ar sail mwy hirdymor, gofynnir i'r Cyngor Tref yn aml benodi cynrychiolydd ar bwyllgorau cyrff lleol nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r Cyngor. Mewn achosion o'r fath bydd y Cyngor yn penderfynu os dymuna gael ei gynrychioli, ac os felly bydd yn penodi Cyngorydd (Cyngorwyr) i

gynrychioli ei farn yng nghyfarfodydd y corff hwnnw.

Mae hyn yn fanteisiol oherwydd mae'n galluogi i gynrychiolydd y Cyngor nid yn unig hysbysu'r corff o farn y gymuned leol, ond hefyd adrodd yn ôl ar ddyheadau'r corff i'r Cyngor Tref. Mewn modd tebyg, gofynnir hefyd i'r Cyngor Tref anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd Awdurdodau Cyhoeddus eraill i hysbysu'r cyrff hynny o farn y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth o bryderon perthnasol yng nghymunedau'r Rhyl.

Cymorth Ariannol i Gyrff Lleol

Bob blwyddyn, gyda hysbyseb cyhoeddus, mae'r Cyngor yn gwahodd cyrff lleol i wneud ceisiadau am gymorth ariannol ac mae'n derbyn, yn rheolaidd, mwy na 50 cais o'r fath gan ystod arwyddocaol o weithgareddau cymdeithasol, addysgol, hamdden, adloniant, amgylcheddol ac ieuencid a ymgymerir gan wirfoddolwyr yn y dref.

Bydd y cyngor hefyd yn cyfeirio cyrff gwirfoddol i ffynonellau cymorth eraill.

A yw'r Cyngor yn rhoi Gwerth am Arian?

Mae'r Cyngor yn rheoli ei arian yn ofalus. Mae'n ariannol sefydlog ac yn ystyried ei fod yn rhoi gwerth am arian i'w ddinasyddion. Ar gyfer 2012/13 cododd £407,000 trwy'r Dreth Gyngor leol sy'n cyfateb i £44.97 ar gyfer eiddo Band D ac mae yn cyfateb i 87 ceiniog yr wythnos fesul aelwyd.

Cynrychioli buddiannau ehangach y Gymuned

Isod nodir rhai o'r materion cyfredol neu faterion y gorffennol a drafodwyd, a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref.

Bu i'r Cyngor:

- ✓ Wneud sylwadau ynglŷn â'r posibilrwydd o gau canolfan ddydd Hafan Deg.
- ✓ Ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau ar newidiadau mawr yng nghyflwyniad y gwasanaeth lechyd yn y Rhyl.
- ✓ Parhau i ymgyrchu ar faterion parcio a thraffig yn goryrru ger ysgolion lleol.
- ✓ Hyrwyddo blaengareddau llifogydd yn y dref ac ysgolion lleol.
- ✓ Ymgyrchu'n weithgar i gael trwsio a gwella'r amgylchedd a'r priffyrdd lleol.
- ✓ Ymgynghori â thrigolion ar eu disgwyliadau o ran eu defnydd o Ganolfan Gymunedol Tynewydd.

ADRAN C

GWELEDIGAETH a DATGANIAD CENHADAETH

Y WELEDIGAETH:

CYNGOR TREF Y RHYL – Gwella Ansawdd Bywyd y Dref

CENHADAETH:

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn gweithio tuag at sicrhau cymuned/dref ffyniannus a fydd yn lle iach, bYwiog, glân a deniadol i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag o.

AMCANION Y CYNGOR 2012 - 2017:

- **ARWEINYDDIAETH LEOL GREF**
- **YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED, CYFATHREBU A DATBLYGU**
- **TWRISTIAETH AR GYFER SWYDDI**
- **BUDDSODDI MEWN CYMUNEDAU**
- **DYSGU GYDOL OES**
- **CEFNOGI POBL YN EIN CYMUNEDAU**
- **LLES ECONOMAIDD Y DREF**

ADRAN D

Y CYNLLUN STRATEGOL 2012 - 2017

AMCAN: ARWEINYDDIAETH LEOL GREF

Mae'r Cyngor Tref yn ymroddedig i egwyddorion gorau llywodraethu da. Byddwn yn canolbwyntio ar bwrpas y gyfundrefn ac ar y canlyniadau i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae Cyngor Tref y Rhyl yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei ymgymryd yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod a bod cyfrif priodol amdano, ac yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cod o lywyodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (CIPFA/SOLACE) sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r fframwaith llywodraethu hwn yn cynnwys y systemau, y diwylliant a'r gwerthoedd dan y rhain y caiff yr awdurdod ei gyfarwyddo a'i reoli ynghyd â gweithgareddau trwy'r rhain y mae'n atebol i, yn cysylltu gyda ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi i'r awdurdod gyflawni ei amcanion strategol ac ystyried os yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau priodol.

Caiff hyn ei gynnwys yng Nghyfansoddiad Corfforaethol y Cyngor a fydd yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut cymerir penderfyniadau, a'r trefniadau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, yn agored ac yn atebol i bobl leol. Gofynnir am rai o'r prosesau hyn dan y gyfraith, tra bo eraill yn bethau i'r Cyngor eu dewis. Yn benodol bydd yn nodi datganiad clir o rolau pwyllgorau, y cyngor llawn, aelodau ac uwch swyddogion.

Mae'r NODAU a'r AMCANION canlynol yn cysylltu â chwe egwyddor graidd llywodraethu effeithiol.

CANOLBWYNTIO AR BWRPAS YR AWDURDOD AC AR GANLYNIADAU I'R GYMUNED TRWY GREU A GWEITHREDU GWELEDIGAETH AR GYFER YR ARDAL LEOL.

NOD: Nod y Cyngor yw defnyddio adnoddau'n effeithiol a darparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda, yn rhoi gwerth am arian sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr

Amcan: Bod yn glir ynglŷn â phwrpas y gyfundrefn a'i chanlyniadau bwriedig i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth		
	Cam	Sut
001	Y Cyngor i bennu cynllun amcanion strategol 5 mlynedd o'i flaenoriaethau ac adolygu bob 12 mis	Mae'r ddogfen hon, a'r dogfennau a ddaw ar ei hôl, yn amlinellu'r amcanion strategol. Caiff ei hadolygu gan y Cyngor bob blwyddyn.
002	Pennir blaenoriaethau'r Cyngor yn flynyddol i gefnogi amcanion strategol.	Bydd Cyngorwyr yn adolygu blaenoriaethau bob blwyddyn gan gymryd perfformiad blynyddoedd a aeth heibio i ystyriaeth.

003	Adolygu strwythurau, rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau ac is-bwyllgorau Cyngor Tref y Rhyl i sicrhau dirprwy cymryd penderfyniadau sy'n briodol i fodloni amcanion y cyngor.	Adolygir strwythurau ac amodau cyfeirio Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cyngor o leiaf bob 3 blynedd o hyn allan, ar ôl adolygiad ym mlwyddyn ddinesig 2013/14.
004	Adolygu'n flynyddol rolau cadeiryddion ac is-gadeiryddion i sicrhau cydymffurfio gyda disgrifiadau rôl.	Mae'r Cyngor wedi penderfynu ar ddisgrifiadau rôl ar gyfer y Maer/Dirprwy Faer a Chadeiryddion/Is-gadeiryddion Pwyllgorau. Adolygir y disgrifiadau hyn bob blwyddyn yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.
005	Pwyllgor Staff i ymgymryd ag adolygiad blynyddol i sicrhau cydymffurfio gyda'r disgrifiadau rôl.	Pwyllgor Staff y Cyngor i gyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod polisïau yn gyfredol ac yn addas i'r pwrpas.
006	Parhau i ddatblygu dulliau i hysbysu'r cyhoedd o'n perfformiad, gan gynnwys y wefan, adroddiad blynyddol ynghyd â'r cyfle i'r gymuned fynychu cyfarfodydd y cyngor	Mae'r Cyngor Tref yn cynnal gwefan ddwyieithog a hysbysfyrddau. Cafwyd ymrwymiad i gyfryngau cymdeithasol gyda phresenoldeb ar Facebook a Twitter i fod yn rhan o gyfathrebu yn y dyfodol.
007	Pennu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr Is-bwyllgor Asesu Risg.	Bydd y Cyngor yn ymgymryd ag Adolygiad Blynyddol Asesu Risg, yn unol ag arferion da. Bydd hyn yn ymgorffori Blaengynllun Gwaith o weithgareddau y bydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn ei adolygu'n fanwl.
008	Adolygu'n flynyddol benodiadau'r cyngor i gyrrff allanol.	Mae'r Cyngor yn cynnal Cyfarfod Anffurfiol o Aelodau i adolygu penodiadau. Cadarnheir hyn yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

Amcan: Sefydlu ystod o fesurau rheoli ariannol i sicrhau defnyddio a rheoli adnoddau yn effeithiol.		
	Cam	Sut
009	Adolygu cynllunio ariannol tymor canol yn cynnwys gwariant refeniw a chyfalaf sy'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a monitro gofynion adnoddau i adlewyrchu a chyflawni amcanion y cynllun strategol.	Bydd Swyddog Adran 151 y Cyngor, yn y broses o bennu'r gyllideb, yn cyflwyno cynllun ariannol tymor canol i'r Cyngor. Adolygir y cynllun hwn yn flynyddol ar y cyd â'r Grŵp Cynllunio Strategol a Gweithredol.
010	Cynhyrchu strategaeth gyfalaf sy'n anelu at sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei gysylltu ag amcanion strategol.	Bydd y Cyngor yn cymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar yr un pryd ag y bydd yn cymeradwyo'r gyllideb. Nid yw'r Cyngor Tref yn cael benthg arian, ac felly mae caffael asedion cyffyrddadwy y tu allan i gwmpas y cynllun hwn.
011	Adroddir ar stiwardiaeth ariannol ddwywaith y flwyddyn i Gynghorwyr a chaiff ei ystyried yn rheolaidd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, gyda chefnogaeth prosesau sefydledig monitro'r gyllideb.	Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor yn adrodd ar y sefyllfa ariannol i'r Cyngor ar ôl 6 a 12 mis fel sy'n ofynnol gan statud. At hyn mae adroddiadau deufisol yn amlinellu gwariant presennol ac amcanestyniadau hyd at ddiwedd y flwyddyn. Gorchwyl Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yw adolygu materion ariannol ymhellach lle bo angen.
012	Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol yn pennu'r fframwaith cyffredinol sy'n llywodraethu rheolaeth arian y cyngor.	Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog contract, a adolygwyd ddiwethaf yn 2011. Mae'r Swyddog Cyllid yn ymrwmo'r Cyngor i adolygiad pellach ym Mlwyddyn Ddinesig 2013/14 ac o leiaf bob tair blynedd wedi hynny.

NOD: Denu buddsoddiad o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau lles economaidd trigolion y Rhyl.

Amcan: Gwrthbwyso costau prosiect trwy gyfrwng grantiau a nawdd allanol		
	Cam	Sut
013	Goleuadau Nadolig Ymgymryd ag arolwg o'r ddarpariaeth, gan greu ansawdd gwell a hyrwyddo nawdd posibl mwy gan fusnesau lleol.	Bydd y Cyngor, trwy ei Bwyllgor C&DC yn adolygu'r gyllideb ar gyfer goleuadau'r Nadolig bob blwyddyn. Bydd y Cyngor yn cyfarfod â busnesau, elusennau lleol a rhanddeiliaid eraill i drafod y cynllun goleuadau Nadolig. Bydd y strategaeth goleuadau Nadolig yn datblygu dros gyfnod y cynllun hwn.
014	Gala'r Maer Ymgymryd ag adolygiad blynyddol a chynyddu cyfranogiad busnesau lleol	Bydd y Cyngor yn ymwymo i adolygiad blynyddol llawn o Gala'r Maer a cheisio cael mwy o gyfarfodydd rheolaidd gyda busnesau lleol i gynyddu cyfranogiad.
015	Ystyried cyfleoedd ariannu allanol ar gyfer prosiectau newydd.	Bydd Swyddog Cyllid y Cyngor yn ymchwilio i ffrydiau ariannu sydd ar gael i'r Cyngor a chyrrff lleol eraill i dalu am brosiectau newydd. Pan fydd ffynonellau ar gael, byddant yn adrodd ar eu darganfyddiadau i'r pwyllgor perthnasol.
016	Ystyried gwaith partneriaeth â chyrrff eraill i hyrwyddo a manteisio'r dref.	Bydd y Cyngor yn ystyried y dogfennau strategol a nodau/amcanion darpar bartneriaid i ganfod cyfleoedd i gydweithio neu wneud ceisiadau am grant ar y cyd. Lle derbynir ceisiadau am gymorth, bydd y Cyngor yn ystyried y cais gyda golwg ar geisio partner i rannu baich y cymorth.

NOD: Darparu cyllid i brosiectau cyfalaf mawr a gymeradwywyd trwy ddarparu cyllid hirdymor ar sail cost-effeithiol.

Amcan: Gwneud y mwyaf o arian allanol ar gyfer prosiectau mawrion		
	Cam	Sut
017	Ymgymryd ag adolygiad blynyddol o'r polisi buddsoddi.	Ystyrir Polisi Buddsoddi'r Cyngor bob blwyddyn yr un pryd â'r gyllideb. Caiff ei baratoi yn unol â'r canllawiau statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

NOD: Cynnal safonau uchaf llywodraethu corfforaethol yng ngweinyddiaeth, perfformiad ac ymddygiad y Cyngor Tref.

Amcan: Sicrhau bod y Cyngor Tref yn gwneud y pethau iawn yn y dull priodol ar ran y bobl briodol mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.		
	Cam	Sut
018	Cyflogi gwasanaethau archwiliwr mewnol proffesiynol.	Mae'r Cyngor wedi cyflogi archwiliwr mewnol proffesiynol. Caiff y gwasanaeth ei adolygu a'i dendro bob 3 blynedd.
019	Cytuno a gweithredu rhaglen flynyddol o archwilio mewnol.	Mae gofyn i'r Cyngor gan statud dderbyn archwiliad interim ac archwiliad diwedd y flwyddyn oherwydd gwerth ei braesept.
020	Ymgymryd ag adolygiad asesiad risg blynyddol y Cyngor.	Bydd Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor yn gwneud hyn bob blwyddyn.
021	Trefnu amserlen rhaglen adolygu holl bolisiau gan sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth wedi eu hymgorffori.	I'w adolygu gan Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor fel rhan o flaengynllun gwaith Asesu Risg dros oes y ddogfen hon.
022	Drafftio a mabwysiadu polisi i sicrhau cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.	I'w weithredu gan Bwyllgor Staff ac Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r ddogfen hon.
023	Drafftio a gweithredu polisi cwynion newydd.	Bydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn

		ystyried hyn ym mlwyddyn ddinesig 2013/14.
024	Adolygu rheolau sefydlog y Cyngor.	Wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2013/14 gydag adolygiadau yn y dyfodol o leiaf bob tair blynedd.
025	Adolygu rheoliadau ariannol y Cyngor.	Wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2013/14 gydag adolygiadau yn y dyfodol o leiaf bob tair blynedd.
026	Llunio amserlen a gweithredu rhaglen i adolygu holl brosesau TGCh y Cyngor.	Adolygwyd caledwedd yn 2012 a'i adnewyddu. Mae meddalwedd i'w adolygu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2013. TGCh i'w adolygu ar gylch 5 mlynedd, fel buddsoddiad cyfalaf.
027	Adolygu cynllun iaith Gymraeg y Cyngor.	Wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2013/14 gydag adolygiadau yn y dyfodol o leiaf bob 3 blynedd.

Amcan: Gweithio i fodloni holl feini prawf statws 'Cyngor Tref o Ansawdd'		
	Cam	Sut
028	Heb ei ryddhau eto, ond disgwylir ei ryddhau yn y man.	I'w ystyried ar ôl rhyddhau canllawiau statudol.

GRANTIAU A CHYFRANIADAU

NOD: Helpu grwpiau i gyflawni prosiectau a gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned leol

Amcan: Sicrhau bod arian ar gael i grwpiau i'w helpu i gyflawni prosiectau a gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned leol.		
	Cam	Sut
029	Yn flynyddol, adolygu meini prawf grantiau, meini prawf dyrannu, trefniadau monitro a'r gyllideb grantiau.	Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol a Gweithredol yn adolygu'r cynllun grantiau bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn cefnogi'r cynllun tref strategol. Bydd ei argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor.
030	Adolygu'r ffurflenni cais gan sicrhau bod eglurder o ran % trigolion y Rhyl sy'n elwa o grantiau a chyfraniadau.	Mae'r ffurflenni cais yn gofyn i ymgeiswyr amlinellu nifer a mathau trigolion a fydd yn elwa o'r cyllid a ddarparwyd.
031	Cefnogi'n ariannol gyrff cymunedol lle mae mantais fesurrol i bobl y dref neu gyfleusterau'r dref.	Ceisiadau i'w hasesu o ran manteision mesurrol gan ddefnyddio methodoleg sgorio dderbyniol. Cronfa galedi i'w sefydlu i alluogi i'r Cyngor gefnogi'r gyrff hynny sy'n darparu manteision, ond sydd mewn trafferthion ariannol, i barhau fel gyrff gweithredol.
032	Ystyriaeth arbennig i gefnogi gyrff cymunedol sydd efallai'n cael anhawster o ran denu cyllid o ffynonellau eraill.	Gall y gronfa galedi sydd i'w sefydlu sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi'r grwpiau hyn. Mae hyn hefyd yn faen prawf ar gyfer dyrannu cyllid grant.
033	Rhoi cyhoeddusrwydd eang ac effeithiol i'r arian sydd ar gael yn y gyllideb grantiau.	Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol a Gweithredol yn adolygu'r ffrydiau cyhoeddusrwydd bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i gynulleidfa darged eang.

**AELODAU A SWYDDOGION YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD I GYFLAWNI PWRPAS CYFFREDIN
GYDA SWYDDOGAETHAU A ROLAU A DDIFFINIWYD YN GLIR**

NOD: Nod y Cyngor yw sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer llywodraethu yn cael eu diffinio a'u dyrannu fel bod atebolrwydd clir am benderfyniadau a gymerwyd a chamau a gymerwyd yn glir.

Amcan: Sicrhau bod rolau a swyddogaethau Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau wedi eu diffinio'n glir.		
	Cam	Sut
034	Sefydlu protocol aelod/swyddog.	Pwyllgor Staff i edrych ar yr arferion presennol a sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas.
035	Sicrhau bod gan bob pwyllgor amodau cyfeirio clir sy'n nodi eu rolau a'u chyfrifoldebau.	Bydd y Cyngor yn adolygu ei Reolau Sefydlog ym Mlwyddyn Ddinesig 2013/14 ac, i'r dyfodol, o leiaf bob 3 blynedd. Bydd yr adolygiadau hyn yn adnabod amodau cyfeirio ar gyfer holl Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau
036(a)	Datblygu rhaglenni gwaith pwyllgorau.	
036(b)	Datblygu unrhyw drefniadau llywodraethu corfforaethol sydd eu hangen dan Ddeddfau Mesurau Cymru.	Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl ganllawiau a gyhoeddir ac yn eu gweithredu yn unol â hynny.

**HYRWYDDO AC ARDDANGOS GWERTHOEDD LLYWODRAETHU DA TRWY GYNNAL SAFONAU
UCHEL O YMARWEDDIAD AC YMDDYGIAD**

NOD: Gweithio i safonau uchaf ymarweddiad ac ymddygiad.

Amcan: Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn arddangos safonau ymddygiad da.		
	Cam	Sut
037	Rhoi Cod Ymddygiad i bob Aelod, fel y mae wedi ei fabwysiadu ac unrhyw ddiwygiadau iddo.	Adolygir Cod Ymddygiad y Cyngor yn unol â'r cylch etholiad o leiaf. Pan fydd newidiadau i ganllawiau cenedlaethol, bydd y Cyngor yn eu hadolygu ac yn newid eu Cod Ymarfer yn briodol. Mae'r holl Aelodau yn derbyn copi o'r Cod Ymarfer un union ar ôl eu hethol i'r swydd, ac ar ôl unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan ganllawiau cenedlaethol.
038	Adolygu a diwygio holl Bolisiau Adnoddau Dynol fel sy'n ofynnol.	Bydd y Pwyllgor Staff yn adolygu'r holl bolisiau ym Mlwyddyn Ddinesig 2013/14. Cânt eu diwygio wedi hynny o leiaf bob 5 mlynedd. Os bydd angen – boed oherwydd statud neu arferion gorau – ceir adolygiad a diwygiad cyn hynny, fel y bo angen.

**CYMRYD PENDERFYNIADAU DEALLUS AC AGORED SY'N DESTUN GWAITH CRAFFU EFFEITHIOL
A RHEOLI RISG.**

NOD: Gweithio mewn modd agored a chllir.

Amcan: Pennu sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r prosesau ar gyfer llunio polisi a chymryd penderfyniadau.		
	Cam	Sut
039	Cynhyrchu a rhoi cyhoeddusrwydd i galendr blynyddol o gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau.	Bydd y Cyngor yn gwneud hyn yn ystod pob Cyfarfod Blynyddol. Arddangosir y calendr ar wefan y Cyngor, o leiaf, bob blwyddyn.
040	Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer yr Is-bwyllgor Asesu Risg.	Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Is-bwyllgor Asesu Risg wedi ei lunio ac fe gaiff ei weithredu dros oes y ddogfen hon.

DATBLYGU GALLUOEDD A DONIAU AELODAU A SWYDDOGION.

NOD: Nod y Cyngor yw sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y Cyngor y sgiliau, yr wybodaeth a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau ac mae'n cydnabod gwerth pobl alluog wedi eu hyfforddi'n dda wrth gyflwyno gwasanaeth effeithiol.

Amcan: Darparu hyfforddiant.		
	Cam	Sut
041	Adolygu a diwygio Llawlyfr / Disg Aelodau a'r pecyn cyflwyno.	Bydd y Cyngor yn adolygu a diwygio Llawlyfr yr Aelodau yn union cyn pob etholiad llywodraeth leol i'w ddiweddarau gyda chanllawiau newydd ac arferion gorau.
042	Holl aelodau a swyddogion newydd i ymgymryd â sesiwn gyflwyno i'w cyfarwyddo gyda'r polisiau, y gweithdrefnau, a gwerthoedd ac amcanion y Cyngor.	Bydd y Cyngor yn cymeradwyo rhaglen gyflwyno ar gyfer holl Aelodau a swyddogion newydd, i'w chwblhau o fewn y mis cyntaf yn y swydd, gan gynnwys gwaith mentora parhaus Aelodau newydd.
043	Cyflwyno gweithdy Hyfforddi Aelodau.	
044	Cynnig cyfleoedd hyfforddi i Aelodau a gynigir gan gyrff allanol.	Bydd y Cyngor, yn safonol, yn hysbysu'r holl Aelodau o gyfleoedd hyfforddi yn y fforwm priodol, a gynigir iddynt gan gyrff allanol.
045	Adolygu fel rhan o'r gwaith o bennu cyllideb, cyllidebau hyfforddi Aelodau a staff.	Bydd y Cyngor yn pennu cyllidebau Hyfforddiant fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, ar gyfer y flwyddyn i ddod ac fel rhan o'i Gynllun Ariannol Tymor Canol.

CYSYLLTU GYDA PHOBL LEOL A RHANDEILIAID ERAILL I SICRHAU ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS CADARN.

NOD: Fel arweinydd cymunedol, mae'r Cyngor Tref yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i gyfrannu tuag at ansawdd cyffredinol bywyd yn y dref, ond mae hefyd yn ceisio darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r safon uchaf a'r mynediad ehangaf at y gwasanaethau hynny.

Amcan: Sicrhau bod gan y Cyngor raglen barhaus o ymgynghori a chysylltu â'i drigolion a chymunedau.		
	Cam	Sut
046	Deddfau Mesurau Cymru – eu hystyried a'u gweithredu.	Bydd y Cyngor yn eu hystyried a'u gweithredu pan gânt eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
047	NEILLTUEDIG.	

AROLYGN EFFEITHIOLRWYDD

Mae'r Cyngor Tref yn ymroddedig i welliannau gwirioneddol parhaus yn ei reolaethau mewnol. Bydd y Cyngor yn ymgymryd ag arolygon manwl rheolaidd o'i swyddogaethau a'i brosesau ac yn gweithredu ar yr argymhellion a dderbynnir.

NOD: Bydd y Cyngor Tref yn cyflawni ei gyfrifoldeb i gynnal, o leiaf bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system o reoli mewnol.

Amcan: Sicrhau bod y prosesau ar gyfer cynnal ac adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn bodoli ac yn gweithredu.		
	Cam	Sut
048	Darparu adroddiadau cynhwysfawr i'r cyngor	Bydd Swyddog Adran 151 y Cyngor yn cyflwyno

	tref trwy gydol y flwyddyn yn ystyried rheolaeth ariannol a pherfformiad ac adroddiadau rheoli risg cyffredinol.	adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor C&DC. Bydd yr adroddiadau hyn yn aminellu rheolaeth ariannol, gan gynnwys llif arian, perfformiad buddsoddiadau, amcanestyniadau alldro a chostau prosiect.
049	Cyflwyno adolygiadau o gyfrifon ariannol a chofnodion y Cyngor gan Archwilwyr Allanol yn arwain at eu barn hwy fel y cyhoeddwyd yn y datganiadau diwedd y flwyddyn.	Bydd Swyddog Adran 151 y Cyngor yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor C&DC yn amlinellu materion ariannol y Cyngor a barn yr Archwilwyr Allanol o ran eu cywirdeb a'u tegwch.
050	Ymgymryd ag arolygon parhaus o risgiau strategol a gweithredol ym mhob maes gwasanaeth a dadansoddi a rheoli risg yn unol â phrosiectau mawr a ymgwymerwyd gan y Cyngor.	Bydd Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor, fel rhan o'i gynllun blynyddol, yn ymgymryd â dadansoddiadau risg ar brosiectau mawr. Bydd y risgiau hefyd yn cael eu hadolygu gan yr Archwiliwr Mewnol sydd wedi ei benodi.
051	Adolygu a, lle'n briodol, diweddarau Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog y Cyngor.	Wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2013/14 gydag adolygiadau yn y dyfodol o leiaf bob 3 blynedd.
052	Cyflwyno bob blwyddyn 'ddatganiad o sicrhad' i'r cyngor er cymeradwyaeth.	Bydd Swyddog Adran 151 y Cyngor, ar y cyd â'r archwilwyr mewnol ac allanol a benodwyd, yn cyflwyno datganiad o sicrhad i'r Cyngor. Caiff ei lofnodi gan Faer y Dref a Chlerc y Dref.

RHEOLI RISG

Mae'r Cyngor Tref yn ymroddedig i warchod ac amddiffyn staff, asedau ac enw da'r Cyngor. Bydd y Cyngor Tref yn hyrwyddo llywodraethu corfforaethol trwy sicrhau bod rheolaeth risg a dilyniant busnes a systemau rheoli mewnol yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r is-bwyllgor asesu risg yn adolygu amcanion, agwedd, gweithdrefnau a chyfrifoldebau'r Cyngor.

NOD: Rheoli risgiau ariannol, gweithredol a risg i enw da.

Amcan: Sicrhau bod strategaethau rheoli risg yn bodoli.		
	Cam	Sut
053	Adolygu strategaethau rheoli risg.	Bydd y Cyngor yn dirprwyo hyn i'r Is-bwyllgor Asesu Risg. Bydd yr Is-bwyllgor yn adolygu'r opsiynau trin risg sydd ar gael ac yn eu cymharu gyda'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd bob blwyddyn.
054	Gweithredu newidiadau gweithredol fel y bo gofyn.	Bydd y Cyngor yn gweithredu unrhyw newidiadau fel yr argymhellir gan ei Is-bwyllgor Asesu Risg neu'r Archwiliwr Mewnol. Bydd swyddogion y Cyngor yn cymryd risg i ystyriaeth ym mhopeth a wnânt ac yn adrodd ar wendidau gweithredol i'r Is-bwyllgor Asesu Risg fel y maent yn codi..
055	Creu a chynnal Cofrestr Risg.	Bydd y Cyngor yn creu Cofrestr Risg ac yn ei hadolygu bob blwyddyn gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Adran 151, gan wneud newidiadau os oes angen.
056	NEILLTUEDIG	

Amcan: Darparu cyllideb ddigonol i gyflogi cyngor cyfreithiol allanol fel y bo angen.		
	Cam	Sut
057	Adolygu'r gyllideb bob blwyddyn.	Bydd y Cyngor yn adolygu'r gyllideb hon bob blwyddyn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ac wrth benderfynu ar y cynllun ariannol tymor canol.

Amcan: Sicrhau darpariaeth yswiriant ddigonol.		
	Cam	Sut
058	Adolygu'r polisi yswiriant.	Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor yn adolygu'r polisi bob blwyddyn gyda'r brociwr yswiriant annibynnol ac yn ail-dendro bob 3 blynedd. Mae'r ail-dendro nesaf i ddod yn 2016.
059	Adolygu darparwr yswiriant.	Mae Swyddog Adran 151 y Cyngor yn adolygu'r polisi bob blwyddyn gyda'r brociwr yswiriant annibynnol ac yn ail-dendro bob 3 blynedd. Mae'r ail-dendro nesaf i ddod yn 2016.

Amcan: Sicrhau bod Cyngor Tref y Rhyl yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch Galwedigaethol sy'n berthnasol i'w faterion busnes (Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, fel y'i diwygiwyd).		
	Cam	Sut
060	Adolygu a newid polisi lechyd a Diogelwch.	Bydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg a'r Pwyllgor Staff yn adolygu pan y bo'n briodol i sicrhau glynu at arferion gorau.
061	Adolygu a newid Aseidiadau Risg a chofnodion ar gyfer pob gweithrediad.	Is-bwyllgor Asesu Risg i adolygu fel y bo'n briodol i sicrhau bod y Cyngor yn glynu at yr arferion gorau.

DINESIG A SEREMONIOL

Mae'r Cyngor Tref yn gweithio i wella bywyd dinesig cymunedau'r Rhyl ac i gynnal swyddogaethau a thraddodiadau Dinesig a Seremonïol y cyngor a'r dref.

NOD: Trefnu gweithgareddau dinesig a seremonïol Cyngor Tref y Rhyl mewn modd urddasol er mwyn cynnal a gwella statws y Cyngor a'r Maer, meithrin balchder dinesig a chynnal traddodiadau dinesig a seremonïol y dref.

Amcan: Hyrwyddo swyddogaethau dinesig y Cyngor.		
	Cam	Sut
062	Sicrhau bod regalia Dinesig yn cael eu cynnal mewn cyflwr da.	Bydd y Maer a'r Dirprwy Faer yn archwilio regalia eu swyddi a swyddi eu cydweddog bob 6 mis i sicrhau eu bod yn aros mewn cyflwr da. Bydd y Cyngor yn cael ei hysbysu o unrhyw amhariad er mwyn trefnu eu trwsio.
063	Meithrin balchder dinesig yn y dref, yn enwedig trwy gyfrwng cyfranogiad gweithgar yr Ysgolion, Lluoedd Arfog, Grwpiau Cymunedol, yn y dref.	Bydd y Cyngor yn darparu amrywiol swyddogaethau Dinesig trwy gydol y flwyddyn Faerol gan sicrhau cynhwysiant a lle'n bosibl, croesewir pob cysylltiad.
064	Cymryd rhan yn Sul y Coffa.	Bydd y Cyngor yn cymryd rôl arweiniol wrth drefnu Gwasanaeth Sul y Coffa bob blwyddyn.
065	Cynnal Gwasanaeth Dinesig blynyddol.	Bydd Ysgrifennydd Maer y Cyngor yn trefnu Gwasanaeth Dinesig blynyddol ar ran y Cyngor.

Amcan: Cefnogi'r Faeryddiaeth.		
	Cam	Sut
066	Cynnal, cefnogi a hyrwyddo'n weithgar statws urddasol Maer y Dref, y Dirprwy Faer a'r Cyngor Tref.	Mae'r Cyngor wedi llunio swydd-ddisgrifiad ar gyfer ei Faer, Dirprwy Faer a Chadeiryddion Pwyllgor. Mae pob Cynghorydd wedi llofnodi Cod Ymddygiad yn amlinellu'r ymddygiad a ddisgwylir. Pan fydd

		Maer yn mynychu digwyddiad, cwblhewir ffurflen yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae ffurflen adborth i'w chwblhau ar gyfer pob digwyddiad Maerol i sicrhau bod y Maer yn gweithredu'n briodol.
067	Cynhyrchu cerdyn Nadolig y Maer, gyda'r dyluniad yn enillydd cystadleuaeth flynyddol i blant.	Bydd y Cyngor yn rhedeg cystadleuaeth yn ysgolion y Rhyl bob blwyddyn. Bydd y dyluniad buddugol yn cael ei droi'n gerdyn Nadolig y Maer.
068	Dyfarnu Bathodyn Cyn-Faer i'r Maer sy'n gadael yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.	Ym mhob Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, bydd y Maer newydd ei ethol yn cyflwyno bathodyn i'r Maer sy'n gadael.
069	NEILLTUEDIG.	
070	Cynhyrchu Goleuadau Nadolig y Maer, gyda'r dyluniad yn enillydd cystadleuaeth flynyddol i blant [yn amodol ar nodded]	Bydd y Cyngor yn rhedeg cystadleuaeth yn ysgolion y Rhyl bob blwyddyn. Caiff y dyluniad buddugol ei droi'n Oleuadau Nadolig y Maer a chael ei arddangos gydag enillwyr blaenorol yn y Dref.

Amcan: Cydnabod y sawl sydd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i fywydau trigolion y Rhyl.		
	Cam	Sut
071(a)	Cynllun Gwobrau Dinesig Adolygu'r Cynllun Gwobrau Dinesig.	Bydd y Cyngor yn adolygu ei gynllun Gwobrau Dinesig bob blwyddyn fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Gala Flynyddol y Maer.
071(b)	Rhoi cyhoeddusrwydd eang ac effeithiol i'r alwad flynyddol am enwebiadau ar gyfer y Cynllun Gwobrau Dinesig blynyddol.	Bydd y Cyngor yn adolygu'r holl ffrydiau cyhoeddusrwydd sydd ar gael.
072	Enwi Strydoedd Parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ddinbych ar y broses hon a lobïo am gael enwau strydoedd newydd yn enwau pobl leol enwog.	Bydd y Cyngor yn ymrwmo i lobïo i'r prif awdurdod pan fo angen penderfynu ar enw stryd neu strydoedd newydd. Bydd y Cyngor yn cadw ei farn y dylid enwi strydoedd newydd ar ôl pobl leol enwog.
073	Gwobrau Rhyddfrenwyr y Dref Adolygu ac ystyried enwebiadau gan ddinasyddion y dref.	Mae'r Cyngor wedi sefydlu polisi a gweithdrefn yn unol â gofynion statudol. Bydd y Cyngor yn adolygu'r dogfennau hyn o leiaf bob 5 mlynedd.

AMCAN: YMGYNGHORI A CHYSYLLTU Â'R GYMUNED, CYFATHREBU a DATBLYGU

YMGYNGHORI A CHYSYLLTU

Mae'r Cyngor Tref yn ddemocrataidd atebol i'r trigolion ac yn gweithredu er budd y gymuned gyfan, ac yn gweithio i wella ei ansawdd bywyd a'i hamgylchedd.

Mae'r Cynghorwyr yn ceisio darparu'r gwasanaeth hwn yn gyfrifol ac yn agored, yn unol â chod ymddygiad llym i sicrhau safonau uchel yn y ffordd y maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ymgynghori a chysylltu â thrigolion a chymunedau ar draws y Rhyl.

CYNRYCHIOLI

NOD: Cynrychioli barn a dymuniadau holl drigolion y Rhyl.

Amcan: Parhau i wella cysylltiadau cymunedol traws-sector.		
	Cam	Sut
074	Datblygu a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd.	Bydd y Cyngor yn ystyried enghreifftiau o arferion da a cheisio gweithredu hyn dros gyfnod y ddogfen.
075	Hyrwyddo rôl Cyngor Tref y Rhyl fel rheng gyntaf llywodraeth leol ar gyfer y Rhyl.	Gweler siart – hyrwyddo gwaith y cyngor yn weithgar trwy wefan gymdeithasol.
076	Ethol Hyrwyddwr Democratiaeth.	I'w benodi trwy etholiad o fewn y Cyngor Tref gydag amcanion clir.
077	Hyrwyddo'r cyfle i aelodau etholaeth y Rhyl ddod yn Gynghorwyr Tref.	Bydd y Cyngor yn hysbysebu holl swyddi gweigion Aelodau y tu hwnt i'r cyfnod lleiaf statudol, gan ddefnyddio pob modd rhesymol o roddi cyhoeddusrwydd.

CYNHWYSIANT A HYGRCHEDD

Mae Cyngor Tref y Rhyl yn ymroddedig i egwyddorion Hygyrchedd a Chydraddoldeb yn ei waith i gyd ac yn cydnabod yr angen i:

- ✓ Hyrwyddo tegwch wrth ddsbarthu adnoddau, yn enwedig i'r sawl sydd â'r angen mwyaf.
- ✓ Cydnabod a hyrwyddo hawliau pobl a gwella atebolrwydd y sawl sy'n cymryd penderfyniadau.
- ✓ Sicrhau bod gan bobl fynediad tecach i'r adnoddau economaidd a'r gwasanaethau sy'n hanfodol i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a gwella ansawdd eu bywydau.
- ✓ Rhoi gwell cyfle i bobl chwarae rhan wirioneddol ac ymgynghori ar benderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau.

NOD: Hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i'r holl drigolion.

Amcan: Gweithio i sicrhau bod Cyngor Tref y Rhyl yn cyflawni arferion gorau ar gyhwysiant a hygyrchedd.		
	Cam	Sut
078	Adolygu a gweithredu anghenion/gofynion Hygyrchedd a Chynhwysiant ym mhob un o gyfleusterau Cyngor Tref y Rhyl.	I'w adolygu gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg gan ddefnyddio'r pecyn Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.
079	Cysylltu â dinasyddion trwy gyfryngau arlein, er enghraifft Gwefan, Twitter a Facebook.	Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn dod i'r wybodaeth ddiweddaraf ar ei wefan a bod yr holl gynnwys yn ddwyieithog. Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad i'r cyfryngau cymdeithasol a bydd yn gwella ei bresenoldeb ar Facebook a Twitter.
080	Ethol Hyrwyddwr Democratiaeth.	I'w benodi gydag etholiad o fewn y Cyngor Tref gydag amcanion clir.
081	Defnyddio arolygon i gael adborth fanwl ynglŷn â'n gwasanaethau, er enghraifft arolwg o'r farchnad neu arolwg digwyddiad.	Bydd y Cyngor yn penderfynu pryd y bydd angen hyn ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor.

CYSYLLTU Â PHOBL IFANC

NOD: Galluogi i'r holl Bobl Ifanc yn y Rhyl gymryd rhan yn y broses o gymryd penderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau hwy a rhai Pobl ifanc eraill. Nod y Cyngor yw sicrhau bod lleisiau Pobl ifanc yn cael eu clywed a sicrhau bod ei wasanaethau a'i gyfleusterau yn adlewyrchu anghenion a disgwyliadau pobl ifanc y Rhyl

Amcan: Gweithio gyda'r holl gyrff priodol i sicrhau bod ansawdd a chwmpas darpariaeth ar gyfer pobl ifanc o bob oedran yn briodol ac yn adlewyrchu anghenion newidiol y gymuned.		
	Cam	Sut
082	Defnyddio pa bynnag brosesau ymgynghori sydd ar gael i holi pobl ifanc y dref ar ba gyfleusterau a gweithgareddau yr hoffent eu gweld, er enghraifft, trwy'r wefan, Twitter a Facebook.	Bydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gyfle sydd ar gael iddo i gyfathrebu. Yn ychwanegol at gyfryngau cymdeithasol, grwpiau ieuencid cymunedol, a phobl ifanc, bydd y Cyngor yn ceisio gweithio gyda Chynghorau Ysgolion trwy Lywodraethwyr a benodwyd.
083	Annog a gweithio mewn partneriaeth â Chyngorau Ysgolion Plant y Rhyl.	
084	Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol neu asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu cyfleusterau i bobl ifanc.	Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda grwpiau lleol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl ifanc i sicrhau darpariaeth eang o wasanaethau i bobl ifanc yn y dref.
085	Cysylltu ag ysgolion ar flaenoriaethau'r Cyngor Tref.	Ceisio gweithio gydag ysgolion trwy lywodraethwyr a benodwyd i hyrwyddo blaenoriaethau Cyngor Tref ac i'r Llywodraethwyr adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed.
086	Creu Cyngor Tref Ieuencid.	Bydd y Cyngor yn ceisio cysylltu â darparwyr gwasanaeth ieuencid lleol i gyflawni'r amcan hwn, gyda'r Cyngor Tref Ieuencid yn cael ei greu yn ddemocrataidd dros gyfnod y ddogfen hon.
087	NEILLTUEDIG.	
088	Hyrwyddo/noddi cystadleuaeth busnes ieuencid (caniatáu i werthu mewn marchnadoedd).	Y Cyngor i adolygu hyn dros y flwyddyn i ddod i brofi ymarferoldeb a'r galw ymhlith pobl ifanc y Rhyl.
089	Cystadleuaeth Brwydr y Bandiau.	Y Cyngor i adolygu hyn dros y flwyddyn i ddod i brofi ymarferoldeb a'r galw ymhlith pobl ifanc y Rhyl.
090	Ethol Aelod i fod yn Hyrwyddwr Ieuencid.	Bydd y Cyngor yn penodi Hyrwyddwr/wyr.

CYFATHREBU MEWNOL AC ALLANOL

NOD: Sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'n gweithwyr a'n Haelodau gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol mewn ffordd y bydd y derbyniwr yn ei deall.

Amcan: Defnyddio ystod eang o sianeli cyfathrebu priodol.		
	Cam	Sut
091	Defnyddio dulliau cyfathrebu priodol: ebost neu femo, y wefan a hysbysfyrddau (mewnol ac allanol), cyfarfodydd Staff ac Aelodau.	Bydd y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd i Aelodau a Staff o ran y sianel gyfathrebu briodol yn dibynnu ar yr hyn y maent eisiau ei gyfleu. Bydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn profi sampl o gyfathrebiadau bob blwyddyn i weld os yw'r cyfrwng yn briodol ar gyfer y cynnwys.
092	NEILLTUEDIG.	
093	Cyfathrebu unrhyw benderfyniadau o'r cyfarfodydd hyn i staff ac Aelodau mewn modd clir, cryno a hawdd ei ddeall.	Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a gymerir mewn cyfarfodydd yn cael eu cofnodi'n briodol. Caiff y cofnodion eu prawfddarllen gan yr uwch swyddog sy'n bresennol yn y cyfarfod a'u cymeradwyo gan y Cyngor fel cofnod gwir a chywir.
094	Gall agenda'r Cyngor llawn gynnwys	Bydd y Cyngor yn derbyn cyflwyniadau gan gyrff

	cyflwyniadau gan gyrff allanol yn y gymuned a Chyngor Sir Ddinbych.	allanol pan ofynnir amdanynt gan yr Aelodau neu gan y gyrff allanol.
095	NEILLTUEDIG.	

CYFATHREBU ALLANOL

NOD: Parhau i wella cyfathrebu gyda thrigolion a'r gymuned fusnes ynglŷn â rôl Cyngor Tref y Rhyl, sut cymerir penderfyniadau, ei weledigaethau, polisïau a'r camau a gymerir ganddo.

Amcan: Defnyddio ystod eang o sianelau cyfathrebu priodol.		
	Cam	Sut
096	Cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd gyfarfod gyda Chyngor Tref y Rhyl y tu allan i'r pwyllgorau arferol a chysylltu â swyddfa'r dref.	Bydd y Cyngor yn cynnal gweithdai Cynghorydd-yn-unig a chymorthfeydd ym mhob ward etholiadol yn y dref. Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal digwyddiadau agored mewn lleoliadau canolog, e.e. Canolfan y White Rose, i gynnwys swyddogion a'r Cynghorwyr, er mwyn i'r cyhoedd fynychu.
097	Cymorthfeydd Cyfarfod y Maer, a rhai ar y cyd rhwng Aelodau'r Cyngor Tref a'r Cyngor Sir – Byddai'r Aelodau ar gael o wneud cais i siarad mewn digwyddiadau cyhoeddus, cyflwyniadau ar fentrau cymunedol lleol ac ati.	Bydd y Cyngor yn cynnal cymorthfeydd gyda'r Maer mewn lleoliadau canolog ac yn cysylltu â'r Cyngor Sir i drefnu cymorthfeydd ar y cyd gyda Chynghorwyr Sir a Thref. Bydd y Cyngor yn cymeradwyo'n awtomatig unrhyw gais i Aelod fod yn siaradwr cyhoeddus neu gynrychioli'r Cyngor mewn mentrau lleol.
098	Gall agenda'r Cyngor llawn gynnwys cyflwyniadau gan gyrff allanol yn y gymuned a Chyngor Sir Ddinbych.	Bydd y Cyngor yn derbyn cyflwyniadau gan gyrff allanol pan ofynnir amdanynt gan yr Aelodau neu gan y gyrff allanol.
099	Cyhoeddi datganiadau rheolaidd i'r wasg a chynnal perthynas dda gyda'r wasg leol a rhanbarthol.	Bydd y Cyngor yn ymroddedig i gyhoeddi datganiadau i'r wasg yn rheolaidd, i gyd-daro â chynlluniau, blaengareddau a phrosiectau y mae'r Cyngor yn ystyried ei fod yn rhanddeiliad ynddynt. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg i hyrwyddo gweithgareddau Maer y Dref. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnal perthynas dda gyda'r cyfryngau, trwy gael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r wasg.

AMCAN: TWRISTIAETH AR GYFER SWYDDI

Dymuno Cyngor Tref y Rhyl ysgogi ymhellach fuddsoddiad preifat a chyhoeddus i wneud y mwyaf o botensial y dref ac i wella ansawdd tai a hamdden i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth lleol.

Nod: Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn gweithio'n annibynnol ac mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo'r Rhyl fel dewis gyrchfan ar gyfer twristiaeth trwy gydol y flwyddyn.

Amcan: Gwella a Denu cyfleusterau twristiaeth gwell i bawb		
	Cam	Sut
100	Annog a hyrwyddo defnyddio'r cyfleusterau presennol i wneud y mwyaf o'r defnydd trwy gydol y flwyddyn. Er enghraifft:- <ul style="list-style-type: none"> • Y griniau bowlio • Penwythnosau thema • Ffeiriau celfyddyd a chrefftau 	

101	Ymestyn tymor haf y cyfleusterau tymhorol presennol i wneud y mwyaf o niferoedd twristiaid, a sicrhau bod defnyddwyr yn medru eu defnyddio. Ehangu'r tymor presennol y tu hwnt i'r chwe wythnos 'draddodiadol'.	<p>Parhau i weithio'n agos â chyrrff eraill a lle'n briodol eu cynrychiolwyr etholedig (gweler Atodiad 2), i edrych ar gyfleoedd ariannu posibl gan gynnwys cyllid grant.</p> <p>Yn rhagweithiol, herio a chefnogi unrhyw fentrau newydd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dref i sicrhau bod llais y gymuned leol yn cael ei glywed a bod eu barn yn cael ei pharchu, gan wneud ymgynghori yn ystyrion.</p>
102	Hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r arena digwyddiadau trwy fuddsoddi mewn hyrwyddo digwyddiadau cymunedol, cenedlaethol a rhyngwladol.	
103	Gweithio gyda darparwyr i ystyried posibiliadau datblygu canolfan dreftadaeth ac ailgyflwyno ffair, pier ac atyniadau eraill yn y dref.	
104	Annog mwy o ddefnydd o Marine Lake trwy gynyddu'r cyfleusterau a'r mwynderau sydd ar gael er mwyn hyrwyddo gweithgareddau dŵr.	
105	Ymgyrchu a rhoi cefnogaeth i ailfodelu Pentre'r Plant ac adolygu cyfleoedd a allai fod ar gael yn y lle a ddarperir. Ystyried syniadau blaengar newydd i ddenu ymwelwyr i lan y môr.	
106	Parhau i adolygu safleoedd gweigion a phenderfynu ar y defnydd gorau yn y tymor hir a'r tymor byr.	

AMCAN: BUDDSODDI MEWN CYMUNEDAU

Mae'r cyngor tref yn ymroddedig i weithio i helpu cymunedau i helpu eu hunain, gan annog pobl i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau a chryfhau rhwydweithiau lleol

Nod: Gweithio'n annibynnol ac mewn partneriaeth ag eraill i wella ansawdd bywyd, trwy ddatblygu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau i'r safonau uchaf.

Amcan: Gweithio gyda'r sector cyhoeddus a phartneriaid annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cymunedol sy'n diwallu anghenion presennol trigolion y Rhyl.		
	Cam	Sut
107	Rhoi gwybodaeth i'r gymuned trwy adolygu darpariaeth hysbysfyrddau yn y dref i sicrhau bod trigolion lleol yn medru cael hyd i wybodaeth a gyhoeddir gan y cyngor tref.	Newyddlen, safleoedd cyfryngau ar y rhyngwrwyd – datblygu gwefan Cyngor Tref y Rhyl, rhoi peth cyllid i Hysbysfyrddau Cymunedol a chyhoeddi gwybodaeth reolaidd trwy'r wasg leol gan gynnwys radio leol.
108	Cysylltu gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r Heddlu yn y dref a meithrin perthynas gyda Chomisiynydd yr Heddlu er mwyn ystyried dulliau rhagweithiol o ddelio ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol.	Bydd y Cyngor yn ceisio cael cyfarfodydd chwarterol gyda'r Tîm Plismona Cymdogaeth a bydd yn gwahodd y Comisiynydd Heddlu newydd ei benodi i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol mewn perthynas ag Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol a materion pwysig eraill sy'n effeithio ansawdd bywyd trigolion.
109	Datblygu mecanweithiau newydd i ymgysylltu gyda a chynnwys pob adran yn ein cymuned.	Trwy wefan Cyngor Tref y Rhyl, gwahodd ymatebion / sylwadau gan drigolion, a gweithio gyda chyfryngau lleol.
110	Annog, cefnogi a gweithio gyda'n partneriaid i ddenu mwy o ddigwyddiadau cymunedol i'r dref.	Gweithio'n agos â chyrrff eraill a lle'n briodol eu cynrychiolwyr etholedig, i edrych ar gyfleoedd ariannu posibl gan gynnwys cyllid grant.
111	Gweithio gyda'r parth cyhoeddus i gael strydoedd glân, diogel, wedi eu goleuo'n dda.	Parhau i ddylanwadu ar gyrrff sy'n gyfrifol am y parth cyhoeddus i sicrhau gwelliannau.
112	Datblygu cynlluniau plannu cynaliadwy ar gyfer	Parhau i ddylanwadu ar gyrrff sy'n gyfrifol am y parth

	y dref gan gynnwys ailgyflwyno coed.	cyhoeddus i sicrhau gwelliannau trwy ein cyfranogiad mewn nifer o gyrff (gweler Atodiad 2).
113	Ymgyrchu dros a lobïo am ddarparu maes claddu pwrpasol newydd yn y Rhyl.	Bydd y Cyngor Tref yn parhau i wneud cyfwyniadau i gael darparu cyfleusterau addas o fewn ffiniau'r Dref.

AMCAN: DYSGU GYDOL OES

Mae'r Cyngor Tref yn ymroddedig i gefnogi cyfle i bob grŵp oedran wneud y mwyaf o'u datblygiad personol a'u potensial cyflogaeth.

Nod: Grymuso trigolion a'u hannog i gyflawni eu dyheadau personol yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Amcan: Gweithio gyda'r holl adrannau statudol a chyrrff annibynnol i hyrwyddo mynediad i adnabod yr holl gyfleoedd sydd ar gael i bob oedran.		
	Cam	Sut
114	Sicrhau bod canolfannau cymunedol yn darparu gwasanaethau perthnasol i ddiwallu anghenion trigolion lleol.	Gweithio gyda thrigolion i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio'n agos gyda darparwyr Canolfannau Cymunedol i gwrdd â'r galw.
115	Bod cyfleusterau ysgolion ar gael i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau.	Cysylltu â'r ysgolion lleol trwy Lywodraethwyr penodedig y Cyngor a'r Awdurdod Lleol i annog mwy o hygyrchedd.
116	Hyrwyddo, annog a chefnogi'r defnydd mwyaf posibl o ganolfannau dysgu cymunedol a dysgu oedolion.	Gweithio'n agos â darparwyr y Canolfannau Cymunedol i sicrhau bod y Canolfannau yn diwallu anghenion lleol. Ystyried cyfleoedd ariannu trwy grant a hyrwyddo trwy Hyrwyddwyr y Cyngor.
117	Mapio'r holl gyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael i alluogi hyfforddiant galwedigaethol i bawb.	Gweithio'n agos gyda darparwyr lleol i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
118	Cyfatebu hyfforddiant i ddiwallu anghenion swyddi yn y Rhyl.	Monitro cyfleoedd cyflogaeth newydd trwy gyfrwng Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir a chysylltu gyda darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod pobl leol yn medru gwneud cais am swyddi sy'n codi.
119	Annog pobl i gymryd prentisiaethau i greu cyflogaeth gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.	
120	Sicrhau bod holl brosiectau datblygu mawrion yn y Rhyl yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gweithlu lleol.	Lobïo ac annog arianwyr grantiau economaidd i ystyried darpariaeth swyddi a phrentisiaethau lleol pan fydd cyfleoedd cyflogaeth mawrion yn codi sy'n derbyn cefnogaeth cyllid cyhoeddus (gan gynnwys ystyried ymgyrch 'Cyflogi'n Lleol').

AMCAN: CEFNOGI POBL YN EIN CYMUNED

Mae'r Cyngor Tref yn ymroddedig i ddarparu cymorth i bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned trwy weithio'n agos gyda darparwyr sector statudol a'r trydydd sector.

Nod: Galluogi i bobl sy'n agored i niwed fedru defnyddio gwasanaethau a sicrhau urddas, annibyniaeth, diogelwch a lles.

Amcan: Gweithio gyda'r holl adrannau statudol, cyrff sector preifat a'r trydydd sector i wella ansawdd bywyd i'r holl drigolion sy'n agored i niwed.		
	Cam	Sut
121	Ceisio hyrwyddo cydraddoldeb a hygyrchedd i wella cludiant digonol i'r holl wasnaethau iechyd.	Bydd y Cyngor yn lloio cyrff partner i ganfasio am gludiant addas i'w ddarparu gan y bwrdd iechyd lleol.
122	Gweithio i geisio hygyrchedd gwasanaethau gofal dydd/cartref gan sicrhau cynnal darpariaeth gofal dydd/cartref fforddiadwy yn y dref.	Bydd y Cyngor yn parhau i ganfasio i gael darpariaeth briodol.
123	Cefnogi banciau bwyd a dillad tra'n gweithio tuag at ddileu'r angen amdanynt.	Bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i gyrff gwirfoddol perthnasol mewn perthynas â gwneud cais am gymorth grant.
124	Cefnogi cyrff gwirfoddol i leihau dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.	
125	Gweithio i hyrwyddo tref sy'n hygyrch beth bynnag fo'r anableded.	Parhau i weithio gyda phob grŵp i sicrhau glynu at ddeddfwriaeth anableded ac adnabod meysydd lle'r ymddengys bod diffyg.

AMCAN: LLES ECONOMAIDD Y DREF

Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod bod cynnal twf economaidd yn holl-bwysig. Wrth greu cyfleoedd i dyfu, mae'r cyngor yn deall ac yn cefnogi cyrff sy'n gweithio tuag at wella Canol y Dref a'r dref yn ei chyfanrwydd.

Nod: Hyrwyddo canol tref y Rhyl fel man croesawgar, diddorol ac amrywiol ynghyd ag ymateb i effaith y dirwasgiad ar fusnesau ac unigolion.

Amcan: Parhau i weithio i gael gwelliannau i ganol y dref, cefnogi busnesau lleol a chyfrannu fel y bo'n briodol tuag at weithgareddau sy'n cynorthwyo gyda sicrhau cynaliadwyedd economaidd y Rhyl.		
	Cam	Sut
126	Gweithio gyda grwpiau busnes lleol.	Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Grŵp Busnes y Rhyl a Fforwm Canol y Dref y Rhyl o leiaf i helpu gwella Canol y Dref. Bydd y Cyngor yn ymrwmo i weithio ag unrhyw grwpiau busnes lleol eraill a all gael eu sefydlu yn ystod oes y cynllun hwn.
127	Adolygu Rheolaeth yng Nghanol y Dref.	Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu gwaith Grŵp Rheoli Canol y Dref a sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn diweddariadau rheolaidd fel rhan o'r ymrwymiad ariannu a thu hwnt.
128	Cadw, annog a chefnogi defnydd parhaol defnydd A1 mewn unedau manwerthu.	Bydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn gwrthwynebu colli, neu newid defnydd unrhyw uned fanwerthu A1 wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio yng Nghanol y Dref.
129	Parhau i adolygu a monitro datblygiad marchnadoedd stryd.	Bydd Aelodau'r Cyngor yn parhau i fonitro ac adolygu gweithredu'r Farchnad i gael gwelliannau a sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed.
130	Ymdrechu i gael gwelliannau parhaol i'r amgylchfyd yng nghanol ein tref.	Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gael gwelliannau gyda grwpiau Parth Cyhoeddus a grwpiau eraill â diddordeb trwy gyfrwng cynrychiolwyr a benodwyd.
131	Annog a chefnogi datblygiad economi'r nos sy'n ddiogel ac o ansawdd.	Bydd y Cyngor yn cysylltu trwy ei Bwyllgor Cynllunio gydag awdurdodau trwyddedu, grwpiau busnes lleol, mentergarwyr a'r Heddlu i gyflawni hyn.

132	Gweithio tuag at wella syniad y cyhoedd o Ganol y Dref.	Bydd y Cyngor yn arweinydd ar hyrwyddo syniad cadarnhaol o'r dref ac annog pawb i hyrwyddo agweddau cadarnhaol y Dref trwy gyfrwng pob cyfle yn y cyfryngau.
-----	---	--

ATODIAD 1 – MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (WIMD) yw'r mesur amddifadedd swyddogol ar gyfer ardaloedd wardiau is-etholiadol yng Nghymru a elwir yn ardaloedd cynnyrch ehangach is. Paratoir y Fynegai yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru trwy ei Chyfarwyddiaeth Ystadegol. Mae model ystadegol amddifadedd lluosog yn seiliedig ar ddangosyddion amddifadedd penodol y gellir eu hadnabod a'u mesur ar wahân ledled Cymru.

Yn y Fynegai, cnrychiolir y Rhyl gan 16 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ac fe gaiff y rhain eu cymharu gyda chyfanswm o 1,896 Ardal ar gyfer Cymru.


Mae pob Ardal wedi ei rhestru yn ôl yr amddifadedd gyda thystiolaeth o fewn yr ardal honno gydag 1 yn dynodi'r mwyaf difreintiedig a 1,896 y lleiaf difreintiedig. Mae'n ddymunol felly i bob Ardal gael rhif uchel gan fod hyn yn dangos ei bod yn dioddef llai o amddifadedd. Mae unrhyw sgôr Ardal llai na 948 (1896 wedi ei rannu gyda 2) felly yn dioddef amddifadedd islaw'r cyfartaloedd. Mae unrhyw Ardal sy'n derbyn sgôr islaw 189 yn y 10% o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Defnyddir y sgoriau unigol gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar bolisi ac i ddyrannu adnoddau – mae rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth Cymru er enghraifft yn seiliedig yn uniongyrchol ar ardaloedd (clystyrau) sydd wedi eu hadnabod fel rhai yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Dylai defnyddio'r data alluogi dyrannu adnoddau sector cyhoeddus i dargedu angen.

Y sgoriau ar gyfer y Rhyl yw:

A	Ward Cyngor Tref y Rhyl	Ward(iau) Cyngor Sir Ddinbych	Sgôr 2011 WIMD (allan o 1,896)
Dwyrain y Rhyl 1	Bryn Hedydd	Dwyrain	479
Dwyrain y Rhyl 2	Plastirion/Brynhedydd	Dwyrain	1040
Dwyrain y Rhyl 3	Plastirion	Dwyrain	216
De'r Rhyl 1	Derwen	De	533
De'r Rhyl 2	Derwen	De	1142
De-ddwyrain y Rhyl 1	Tynewydd	De-ddwyrain	752
De-ddwyrain y Rhyl 2	Tynewydd/Trewellyn	De-ddwyrain	1048
De-ddwyrain y Rhyl 3	Trewellyn	De-ddwyrain/De-orllewin	1053
De-ddwyrain y Rhyl 4	Trewellyn	De-ddwyrain	287
De-ddwyrain y Rhyl 5	Tynewydd	De-ddwyrain	1455
De-orllewin y Rhyl 1	Cefndy	De-orllewin	96
De-orllewin y Rhyl 2	Cefndy	De-orllewin	12
De-orllewin y Rhyl 3	Pendyffryn	De-orllewin	586
Gorllewin y Rhyl 1	Foryd/Bodfor	Gorllewin	7
Gorllewin y Rhyl 2	Bodfor	Gorllewin	1
Gorllewin y Rhyl 3	Foryd	Gorllewin	34



Atodiad 2

Cyrrff Allanol ar y rhain y mae'r Cyngor Tref wedi ei gynrychioli

Corff	Disgrifiad byr / Crynodeb
Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	Lleolir y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau yn Bedford Street ac mae'n rhoi cyngor, adfocatiaeth a chynrychiolaeth yn y maes hawliau lles yn rhad ac am ddim.
Grŵp Ymgynghorol Rheoli Pwll Brickfields	Mae'r Grŵp Ymgynghorol yn caniatáu i ddefnyddwyr safle gael mewnbwn i weithrediad a rheolaeth y safle.
Grŵp Llywio Connect 2	Pwrpas y Grŵp Llywio yw sicrhau bod y gymuned leol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Pont Cerdded a Beicio newydd Foryd.
Pwyllgor Ymgynghorol Ardal Sir Ddinbych (Y Dyfodol gynt)	Pwrpas y grŵp yw helpu cynorthwyo gyda rhoi cefnogaeth ac anogaeth gadarnhaol i drigolion grŵp Y Dyfodol. Ei nod yw grymuso trigolion i reoli eu bywydau eu hunain i wneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas a'r gymuned lle maent yn byw.
Grŵp Rhanddeiliaid Arolygu Gwasanaethau Dydd Cyngor Sir Ddinbych (Hafan Deg)	Ar ôl cynigion i leihau / cael gwared â gwasanaethau Dydd Hafan Deg, mae'r Cyngor wedi penodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid.
Fforwm Harbwr Foryd	Fforwm ydyw i ddefnyddwyr yr harbwr fynegi barn ar ddatblygiadau yn yr ardal yn y dyfodol ac mae asiantaethau eraill yn ymgynghori ag o yn rheolaidd.
Tref y Galon (Sefydliad y Galon Prydain)	Yn 2011, cytunodd y Cyngor Tref i'r Rhyl ddod yn Dref y Galon ar y cyd â Sefydliad y Galon Prydain. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor i drafod sut mae'r fenter yn mynd ac maent yn cael eu galw gan y BHF.
Fforwm Defnyddwyr Marine Lake	Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr Marine Lake wneud sylwadau, cymryd rhan a dylanwadu ar reoli'r Marine Lake.
Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Mae'r corff hwn yn gymdeithas wedi ei hen sefydlu yn cynnwys y Cynghorau Tref a Chymuned Mwy ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru cyn belled i'r de â'r Trallwng. Mae'r fforwm yn trafod eitemau o fuddiant cyffredin a gwneud sylwadau ar ran y Cynghorau sy'n Aelodau i gyrff megis Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfodydd fel rheol yn denu siaradwyr gwadd megis Gweinidog Llywodraeth Cymru i drafod materion megis yr effaith bosibl ar lefel llywodraeth leol Cyngor Cymuned. Gellir hefyd cysylltu â'r Gymdeithas i gefnogi ymgyrchoedd lleol lle maent yn effeithio ar anghenion lleol. Mae enghreifftiau yn y gorffennol yn cynnwys cau swyddfeydd post, gwasanaethau Niwrolawdriniaeth yn cael eu trosglwyddo i Dde Cymru, Cytundeb Siarter Llywodraeth Leol.
Grŵp Consortiwm Strategaeth Dinas y Rhyl	Mae Strategaeth y Dinas nawr yn cynnwys holl wardiau'r Rhyl; ei phrif amcan yw delio ag anweithgarwch economaidd yn y dref, sy'n allweddol i adfywio'r ardal.

Corff	Disgrifiad byr / Crynodeb
Cyngor Coleg y Rhyl	Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw rhoi cyfle i'r sawl sydd â diddordeb gael mewnbwn i weithredu coleg y Rhyl.
Grŵp Llywio Partneriaeth Cymuned y Rhyl	<p>Ar ôl i Bartneriaeth Ardal y Rhyl ddod i ben, sefydlwyd Partneriaeth Cymuned y Rhyl i ganiatáu i nifer o Aelodau'r corff blaenorol barhau i gyfarfod a gwneud sylwadau ar faterion sy'n effeithio'r Dref. Mae aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr y Gymuned, sectorau gwirfoddol, busnes a statudol.</p> <p>Gan y Bartneriaeth hefyd mae'r cyfrifoldeb i ddyrannu cyllid a dderbyniwyd gan ffermydd gwynt i grwpiau cymunedol lleol.</p>
Bwrdd Rhaglen Cymdogaethau a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen	<p>Mae menter Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn rhaglen waith a arweinir gan Sir Ddinbych i weithredu nodau ac amcanion Strategaeth Y Rhyl yn Symud Ymlaen.</p> <p>Ar hyn o bryd, deallir bod y trefniadau "Cyflawni" yn cael eu hadolygu ac mae'r Cyngor yn cael ei gynrychioli yn y broses hon.</p>
Y Rhyl yn ei Blodau	Sefydlwyd grŵp Y Rhyl yn ei Blodau i hyrwyddo cymryd rhan mewn cystadleuthau Cymru/Prydain yn ei Blodau.
Grŵp Rheoli Canol Tref y Rhyl	Sefydlwyd y Grŵp hwn yn bennaf i oruchwylio gwaith Rheolwr Canol y Dref.
Sir Ddinbych Gynaliadwy	Hen enw'r Pwyllgor hwn oedd Pwyllgor Agenda Leol 21 ac mae'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion amgylcheddol sy'n effeithio bywyd yn Sir Ddinbych a thu hwnt. Mae'n cyfarfod bob mis gyda'r nos am 7pm yng Ngholeg Cymunedol Dinbych.
Penodwyd Llywodraethwyr Ysgol i:	
<p style="text-align: center;">Ysgol Christchurch Ysgol Bryn Hedydd Ysgol Dewi Sant Ysgol Emmanuel Ysgol Llewellyn Ysgol Mair</p>	

Atodiad 3

Dros y misoedd diwethaf, mae eich Cyngor Tref wedi:

- Gwneud sylwadau ar gynigion yn ymwneud â chyd-ysgol ffydd ar gyfer y Rhyl
- Derbyn cyflwyniad gan G2G Communities ar Ganolfan Arloesi Gogledd Cymru
- Datblygu menter i alluogi i blant lleol brofi cyfleusterau newydd Marsh Tracks
- Darparu Rhaglen Gweithgareddau Corfforol i drigolion y Dref
- Cynnal ymweliadau gan grwpiau ieuenctid lleol â Siambr y Cyngor
- Gwneud argymhellion ar fwy na 130 o geisiadau am ganiatâd cynllunio
- Cyflwyno Gala Maer y Dref, Sul Ddinesig, Goleuadau'r Nadolig, Pops Nadolig.
- Penodi cynrychiolwyr i 21 o gyrff lleol
- Darparu llythyrau cefnogi i gyrff cymunedol
- Codi materion o bryder ynglŷn â diogelwch y briffordd ar Ffordd Dyserth
- Cydnabod myfyrwyr Ysgol Uwchradd y Rhyl a oedd yn cludo'r ffagl Olympaidd
- Cyfleu pryderon ynglŷn â'r rhaglen plannu blodau yn y Dref
- Rhoi cefnogaeth ariannol i fwy na 30 o gyrff lleol sy'n gweithio i wella'r Rhyl
- Cefnogi ymgyrch y Lleng Brydeinig i gael Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog
- Ymateb i gynigion i dorri gwasanaethau bws
- Cynrychioli'r Dref yn Seremoni Gwobrau Prydain yn ei Blodau
- Penodi llywodraethwyr i ysgolion cynradd y Dref
- Archwilio a gwneud sylwadau ar Gynlluniau Corfforaethol darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill
- Cydgysylltu trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Coffa Blynyddol
- Gwneud sylwadau mewn perthynas â darparu cyfleusterau mynwent
- Cyfarfod â Scarborough Developers – i fynegi rhwystredigaeth parhaus y Dref ynglŷn â'r oedi wrth ailddatblygu hen safle'r ffair
- Gwneud sylwadau ar ddarpariaeth Gofal Dydd yn y dyfodol yn y Rhyl a'r ffioedd a godir.
- Mynegi pryderon ynglŷn ag ansawdd Dŵr Ymdrochi'r Dref
- Penodi Wardeniaid Llifogydd
- Derbyn cyflwyniadau ar Ddatblygu Cyt y Rhyl, yr Eisteddfod Genedlaethol, Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr, a Phrosiect Gwyrddio Cymunedol i ddeall yr effaith / fantais bosibl i'r Dref
- Gwneud sylwadau ar y goblygiadau i'r Rhyl yn deillio o ddeddfwriaeth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
- Ymateb i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar effaith eu cynigion darparu iechyd yn y dyfodol ar y Rhyl
- Gwneud sylwadau ar gynigion ffiniau Seneddol
- Darparu arwydd newydd "*Croeso i'r Rhyl*" ar fynedfa Foryd i'r dref
- Rhoi cymorth ariannol i ddarparu Rheolwr Canol y Dref
- Gwneud sylwadau ar y drafft ar gyfer Canllaw Twristiaeth y Dref
- Mynegi barn ar y Cynllun Datblygu Lleol
- Ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, darparu dyddiau parcio am ddim i annog mwy o weithgaredd yng Nghanol y Dref
- Gwneud sylwadau ar orchmynion rheoli priffyrdd
- Mynegi barn ar Strategaeth Gwrth-faeddu Cyngor Sir Ddinbych
- Gwneud sylwadau ar werthu ceir ar ochr y ffordd
- Ymweld â Choleg y Rhyl
- Gwneud sylwadau ar gynigion i adleoli gwasanaethau o Swyddfa Bost y Rhyl